# Casgliad y Werin Cymru
# People's Collection Wales

## Taflen Tywys Caerllion Rhufeinig
## Roman Caerleon Trail Guide

### 1 Rhagymadrodd / Introduction



Croeso i'r de-ddwyrain, rhan hardd o'r wlad ac un sy'n gyforiog o hanes

Welcome to south-east Wales, a region of natural beauty and an area steeped in history.

### 2 Y Barics Isaf / Lower Barracks



Cadw, Welsh Assembly Government (Crown Copyright)

Dangosir sylfeini pedwar bloc o farics ar gae Prysg. Cawsant eu cloddio yn ystod y 1920au.

The outlines of four barrack blocks are displayed in Prysg field. These were excavated in the 1920s.

### 3 Toiledau / Latrines



Cadw, Welsh Assembly Government (Crown Copyright)

Bu cloddio hefyd ar adeiladau pwysig eraill yn ymyl y barics a fu'n rhan o fywyd beunyddiol – gan gynnwys y bloc o doiledau i bawb.

Close to the barracks, other important buildings of day to day life have been excavated – including the communal toilet block.

### 4 Amddiffynfeydd / Defences



Cadw, Welsh Assembly Government (Crown Copyright).

Rhaid oedd i Isca fod yn gaer anorchfygol o'r cychwyn cyntaf, ond codwyd ei hamddiffynfeydd mewn dau gam.

Isca had to be impregnable from the outset but it's defences were built in two stages.

### 5 Yr Amffitheatr / Amphitheatre



Cadw, Welsh Assembly Government (Crown Copyright)

Codwyd yr amffitheatr tuag OC 90 i gynnal ymarferiadau milwrol, gorymdeithiau a difyrrwch treisgar ynddo.

Built around AD 90, the amphitheatre was used to practice military exercises, for parades and for violent entertainment.

### 6 Cysegr Nemesis / Temple of Nemesis



Gallai'r rhai fu'n sefyll yma o dan gysegr Nemesis fod wedi bod yn unrhyw beth o droseddwyr condemniedig i ymladdwyr proffesiynol.

Those waiting here beneath the shrine of Nemesis could have been anything from condemned criminals to professional gladiators.

### 7 Via Principalis



Dyma un o brif strydoedd y gaer, a gellir dal i'w dilyn ar hyd Broadway heddiw.

One of the main streets of the fortress, which can still be traced along the modern Broadway

### 8 Baddonau'r Gaer - Natatio / Fortress Baths - Natatio



Cadw, Welsh Assembly Government (Crown Copyright).

Y Natatio fyddai'r lle nofio awyr-agored gwreiddiol, ac mae tŷ ffynhonnau gerllaw.

The Natatio would have been the original open air swimming bath, with a fountain house.




Drwy ddilyn Llwybr Caerllion Rufeinig caiff ymwelwyr weld 18 o glipiau fideo lle bydd Flavius yn esbonio sut fywyd a geid yn y gaer bron i 2000 o flynyddoedd yn ôl.
Y bwriad yw i chi ddilyn y llwybr ar droed gan ddefnyddio unrhyw ffôn symudol sydd â chamera a chod bar 2D / meddalwedd darllen Microsoft TAG wedi'i osod ynddo i wylio'r fideos. Cewch chi ddod o hyd i'r feddalwedd briodol drwy farchnad Apps eich ffôn neu:
Gallwch chi lwytho darllenydd codau bar 2D i lawr o http://reader.kaywa.com
Cerddwch i bob lleoliad sydd i'w weld ar gynllun y gaer, sganiwch y cod bar, a gadewch i Flavius ddod ag Isca Rufeinig yn fyw.
Casgliad y Werin Cymru – www.casgliadywerincymru.com

The Roman Caerleon Trail allows visitors to access 18 video clips in which Flavius explains life in the fortress almost 2000 years ago.
The trail is designed to be followed on foot, with the videos accessed using any mobile phone that has a camera and 2D barcode/Microsoft TAG reading software installed. You can find the appropriate software through your phone's App market or:
A 2D barcode reader can be downloaded from http://reader.kaywa.com
Walk to each location shown on the fortress plan, scan the barcode, and let Flavius bring Roman Isca to life.
People's Collection Wales – www.peoplescollectionwales.com